LIVING
STREETS

# SÊR SYMUD

## Pecyn yr Hyrwyddwr

## Yn helpu eich ysgol i ddechrau arni gyda Sêr Symud

Croeso i Sêr Symud, yr her teithio i'r ysgol newydd gan Living Streets. Mae Sêr Symud yn annog disgyblion i deithio'n egnïol ac yn gynaliadwy i'r ysgol drwy gystadleuaeth gyfeillgar a gwobrau diddorol.

## Diolch am fod yn Hyrwyddwr Sêr Symud

Fel Hyrwyddwr Sêr Symud eich ysgol, byddwch chi'n cydlynu'r her ac yn helpu disgyblion a staff i gael y gorau allan ohoni.

Eich rôl chi yw sefydlu dosbarthiadau ar y platfform, cefnogi athrawon, rheoli cyfathrebu a goruchwylio'r gwaith o redeg yr her yn gyffredinol yn yr ysgol.

## Beth yw Sêr Symud?



**Mae Sêr Symud yn her fisol lle mae disgyblion yn cofnodi sut maen nhw'n teithio i'r ysgol bob dydd gan ddefnyddio platfform Sêr Symud.**

Mae'n bosib ennill pwyntiau am wahanol ddulliau teithio, gyda phwyntiau bonws am deithio llesol a chofnodi rheolaidd. Mae pob dosbarth yn gweithio gyda'i gilydd i ennill y sgôr uchaf bob mis, tra gall disgyblion hefyd ennill cydnabyddiaeth unigol am gyfranogiad a gwelliant.



LIVINGSTREETS.ORG.UK/MOVEMAKERS

## DEFNYDDIO SÊR SYMUD

Mae Sêr Symud yn blatfform digidol lle mae plant yn cofnodi eu teithiau dyddiol bob dydd. **movemakers.org.uk**
Byddwch chi'n cael:



- Manylion mewngofnodi ar gyfer yr ysgol gyfan
- Cyfarwyddiadau ar gyfer cofrestru dosbarthiadau (canllaw gweinyddol)
- Cyswllt i borth rhieni/gofalwyr eich ysgol.

Mae disgyblion yn cofnodi eu taith drwy ddewis eu henw/eicon a dewis eu dull teithio bob dydd. Os yw amser yn brin, gall athrawon gofnodi teithiau ar gyfer y dosbarth cyfan gan ddefnyddio'r modd swp.

## MODD YMARFER

Cyn lansio Sêr Symud yn eich ysgol, gofynnwch i bob dosbarth gofnodi sut mae disgyblion fel arfer yn teithio i'r ysgol yn y Modd Ymarfer. Bydd Sêr Symud yn cael ei ddefnyddio yn y Modd Ymarfer yn awtomatig y tro cyntaf y bydd bob dosbarth yn ei ddefnyddio. Mae hyn yn gosod man cychwyn manwl gywir ar gyfer yr her heb ddylanwadu ar ymatebion disgyblion.



## LANSIO SÊR SYMUD YN EICH YSGOL

Unwaith y bydd bob dosbarth wedi cwblhau'r Modd Ymarfer, rydych chi'n barod i lansio'r her. Cyflwynwch Sêr Symud yn ystod gwasanaeth ac esboniwch sut mae'r her yn gweithio. Bydd yr her yn cychwyn ar y diwrnod cyntaf y mae dosbarthiadau'n cofnodi eu teithiau ar ôl y lansiad.

Er mwyn helpu i greu ymdeimlad o gyffro, gallwch chi:

- Ddefnyddio'r cyflwyniad lansiad digidol sydd wedi'i ddarparu
- Rhannu testun y llythyr rhieni/gofalwyr a'r cyswllt porth yn eich cylchlythyr nesaf
- Rhoi pecyn dosbarth i bob athro dosbarth sy'n cynnwys canllaw dosbarth, sticeri, taflenni i rieni a gofalwyr, a nodau tudalen Sêr Symud

- Ymweld â i livingstreets.org.uk/movemakers i gael manylion am y pwyntiau sydd ar gael ar gyfer gwahanol ddulliau teithio
- Briffio athrawon dosbarth ar ddisgwyliadau o ran cofnodi. Mae cofnodi dyddiol yn meithrin arferion iach, ac mae pwyntiau bonws am wneud
- Arddangos posteri neu negeseuon o amgylch yr ysgol
- Tynnu sylw staff at fanteision disgyblion yn teithio'n llesol i'r ysgol: canolbwyntio gwell, llai o dagfeydd wrth y gatiau a gwobrau dosbarth!

## ANNOG RHIENI A GOFALWYR



Mae dangosfwrdd eich ysgol yn cynnwys templed llythyr rhieni/gofalwyr, gan gynnwys cyswllt i borth rhieni/gofalwyr eich ysgol, lle gall teuluoedd weld sgoriau dosbarth a dilyn y gystadleuaeth.

Gofynnwch i athrawon dosbarth anfon y taflenni i rieni/gofalwyr o'r pecynnau ystafell ddosbarth adref gyda'r disgyblion.

## CYSTADLEUAETH DOSBARTH MISOL

Bob mis, mae Sêr Symud yn cyfrifo'r canlynol yn awtomatig:

- Y dosbarth buddugol, yn seiliedig ar gyfanswm y pwyntiau fesul disgybl. Mae hyn yn ei gwneud hi'n deg ar gyfer dosbarthiadau o wahanol feintiau
- Disgyblion yn y tri safle uchaf (aur, arian ac efydd) ym mhob dosbarth
- Gwobr Ysgogwr Newid i'r disgybl a wnaeth y gwelliant mwyaf ym mhob dosbarth.



## GWOBRAU

- Cyhoeddwch y dosbarth buddugol yn eich gwasanaeth ysgol a dyfarnwch y tegan masgot Strider iddo am y mis nesaf
- Dylai athrawon dosbarth wobrwyo pob disgybl gyda sticer Sêr Symud misol, y gellir ei ychwanegu at eu nod tudalen Sêr Symud
- Dylai athrawon dosbarth roi'r sticer Ysgogwr Newid arbennig i'r disgybl sydd wedi gwella fwyaf yn eu dosbarth.



## GWOBRAU



Gallwch chi ddathlu cerrig milltir dosbarthiadau ac unigolion mewn unrhyw ffordd hwyliog sy'n addas i'ch ysgol: boed hynny'n wasanaeth i ddathlu, amser aur ychwanegol, rhoi marblen yn y jar gwobrau neu unrhyw draddodiad hwyl arall y mae eich disgyblion yn ei fwynhau!

Beth am gadw dyddiadur o anturiaethau Strider gyda'r dosbarth buddugol bob mis?

## Rhannwch ar y cyfryngau cymdeithasol

Byddem wrth ein bodd yn gweld sut mae eich ysgol yn dathlu.

- MOVEMAKERS@LIVINGSTREETS.ORG.UK
- LIVINGSTREETSUK
- LIVINGSTREETS
- @LIVINGSTREETS.BSKY.SOCIAL
- LIVINGSTREETS



SÊR SYMUD

LIVINGSTREETS.ORG.UK/MOVEMAKERS

FSC www.fsc.org MIX Paper | Supporting responsible forestry FSC® C113442

Mae'r daflen hon wedi'i chynhyrchu gydag inciau sy'n seiliedig ar lysiau. Mae wedi'i greu o ddeunydd o goedwigoedd sydd wedi'u rheoli'n dda ac sydd wedi'u hardystio gan FSC® ac o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

**Ni yw living streets, elusen y DU dros gerdded bob dydd**

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru'r Cwmni 5368409.